

## Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

318 - Beirniadaeth Cystadleuaeth ar gyfer yr oedran Bl 10 -dan 19 oed sydd yn astudio Gofal Plant -cynllunio a/neu creu gêm ar gyfer y

Blynyddoedd Cynnar

Beirniad: Meri Jones

Daeth 14 ymgais i law ond nid oedd 4 ohonynt wedi eu huwchlwytho ac felly ni ellid eu beirniadu (Tamzin Learoyd ,Vicki Bruce,Lliwen Willimas,Ella Price )

Allan o'r 10 arall roedd 9 ohonynt wedi defnyddio llyfr fel sail i'r dasg o greu gêm, mae hyn yn ddull da i sicrhau bod perthnasedd rhwng y gemau ar llyfr ac yn fodd o ehangu defnydd y llyfr ymhellach. Roedd y gêm arall yn canolbwytnyio ar y sgil rhifedd ac enwau anifeiliaid yn unig. 'Rwyn sicr bod digon o lyfrau Cymraeg a'r gael ar gyfer datblygu sgiliau plant y blynyddoedd cynnar ond yn anffodus roedd bron yr holl o'r llyfrau wedi cael eu dangos yn Saesneg gyda ymdrech gan rai i'w cyfieithu ac n dipyn o oed erbyn hyn .Braf fyddai gweld llyfrau mwy newydd. Byddai cyfarwyddiadau manylach ar amcan/ nod/ pwrpas/ rheolau y gemau wedi bod yn ddefnyddiol. Collwyd llawer o gyfleoedd i ddefnyddio y llyfrau i ddatblygu gemau neu cynllunio ar gyfer datblygu sgiliau iaith a rhifedd.

CYNTAF: Emily Bradley

Addasiad o'r llyfr '5 Speckled Frogs /5 broga brechlyd '

Wrth ir oedolyn ddarllen y llyfr mae'r plant yn gallu tynnu gwrthrychau o bocedi y cymeriad i gyfateb i'r gwrthrychau yn y llyfr .

3 gêm -ateb cwestiynau, lliwio trwy ddilyn allwedd ,ail adeiladu y jigso, ac mae gem rhifo gwrthrychau hefyd .Mae'r gemau yn dda am ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd mewn dull hwyliog

Yn ychwanegol mae'r ymgeisydd wedi rhoi cyfarwyddiadau ar gyfer chwarae y gemau

## Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

### ALL: Keira Humphreys

Wedi ei seilio ar y llyfr ‘-Dawns yr anifeiliaid ‘ a addaswyd gan Delyth George .’Rwyn siwr y byddai’r plant wrth eu boddau yn gwisgo y mygydau i gyfateb â’r anifeiliaid yn y llyfr ac yn dynwared y synau .Byddai posibl wedyn i newid mygydau er mwyn rhoi cyfleoedd ar gyfer pob anifail .Byddai cyfarwyddiadau i chwaraewyr y gêm wedi bod yn ddefnyddiol

### TRYDYDD: Amy Griffiths

Seiliedig ar Llyfr Smot yn y Carnifal ac yn addas ar gyfer y blynyddoedd Cynnar .Mae yma gem Snap cyfateb anifeiliaid ,gem labelu yr anifeiliaid a gem cyfateb llun yr anifail i’r enw

**Kara Evans** –‘My best friend is ...’ Llawer o gyfleoedd wedi eu methu i wneud defnydd o’r llyfr i ehangu iaith

Gem 1 oedd labelu rhannau o gorff y ci ee clustiau coesau ayb

Gem 2 oedd cyfri sawl ci oedd yn y llun a sawl smotyn oedd gan y ci (braidd yn anodd i’r oedran)

### Katelyn Carton

Gemau braidd yn rhy syml a heb sylwedd -dim llyfr

-Sawl gwenynen ? (3) Sawl babi ?(4)

Enwch yr anifeiliaid Hwyaaden broga. Byddai’r plant wedi cwblhau y gêm yn syth.

### Senninhau Philips

Llyfr Saesneg eto am fwyd. Y gêm oedd llenwi eich plat gyda bwydydd gwahanol fel yn y llyfr. Yna ‘roedd gêm /gweithgaredd Pa fwyd wyt yn ei hoffi gyda thaflen addas yn dangos teimladau hoffi /ddim yn hoffi

Gêm 3 -Creu platiad o’ch hoff fwyd

‘Roedd y gemau /gweithgareddau yn sicr o hybu diddordeb y disgyblion ond byddai trafod bwydydd iach wedi bod yn gyfle yma.

## Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

### Jamie Williams

Mae'r ymgeisydd wedi defnyddio'r llyfr 'But I do know all about chocolate' Yn anffodus y cyfan yw y gem ydy adnabod y lliwiau o fewn un tudalen i'r llyfr!

### Joanne James

Defnydd o'r llyfr 'Y Lindysyn Lwglyd Iawn' gan Eric Carle -gyda un gêm wedi ei chreu i gyfateb gyda'r nifer cywir o ffrwythau ar gyfer pob dydd. Mae hyn yn cefnogi cyfiri, adnabod rhifau i 5 a gwahaniaethu rhwng dyddiadau yr wythnos.

### Charlotte Moore

Seiliedig ar y llyfr 'Weithiau 'rwyn troi yn belen...'

Un gem sydd ynghlwm sef creu jigso yn ol at ei gilydd ond mae'r darnau yn rhy fach a gormod ohonynt ar gyfer yr oedran yma,ac nid yw yn glir beth yw pwrpas y weithgaredd.

### Elen Reading

Seiliedig ar y Llyfr 'Y lindydysn lwglyd iawn'. Mae llun o'r gloyn byw ,a ffyn lolipop hefo haul a lleuad a ffrwythau ond nid yw yn glir beth yw pwrpas y weithgaredd.